Papur Tystiolaeth – y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Cyflwyniad

Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor, yn dilyn fy natganiad ar 11 Hydref 2016 ynghylch cymunedau cryf. Mae'r pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth ac mae hefyd wedi gofyn am adolygiad o ymatebion y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad ar gyfer y Bedwaredd Elfen o'i Ymchwiliad i Dlodi – (Dulliau o drechu tlodi yn y gymuned).

Cymunedau cryf

Rwy'n gadarn o'r farn ei bod yn bryd cael dull newydd o adeiladu cymunedau cryf er mwyn hyrwyddo amcanion y Llywodraeth o sicrhau llesiant a ffyniant economaidd. Mae'r broses o greu cymunedau cryf yn gofyn am ddull o weithio ar draws y Llywodraeth. Yn fy marn i, cyflogaeth, y blynyddoedd cynnar, a grymuso yw elfennau hanfodol cymuned gref. Mae hyn yn golygu cymunedau sy'n barod ac yn abl i weithio; sy'n gallu cynnig y dechrau gorau mewn bywyd i blant, a chymunedau sydd wedi'u grymuso ac wedi'u hysgogi.

Cyflogaeth sy'n cynnig y ffordd orau a'r ffordd fwyaf cynaliadwy o ddianc rhag tlodi. Rydym eisoes wedi gwneud ymrwymiad mawr i raglenni Esgyn; Cymunedau am Waith; a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth. Rydym wedi ymrwymo hefyd i gynorthwyo teuluoedd sy'n gweithio, ledled Cymru, drwy gyfrwng ein cynnig gofal plant, gan helpu rhieni i ddychwelyd i'r gwaith neu gynyddu eu dewisiadau o ran cyflogaeth. Mae'r gwaith hwn yn rhan o ffocws ehangach Llywodraeth Cymru ar hyrwyddo cyflogaeth a chyflogadwyedd fel y disgrifiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith mewn tystiolaeth a gyflwynwyd cyn iddo ymddangos gerbron y pwyllgor hwn ar 8 Chwefror 2017. Mae cyfrifoldebau sy'n rhan o bortffolio yr Economi a'r Seilwaith yn ganolog i'n dull o hyrwyddo ffyniant a threchu tlodi, gan gynnwys y ffocws ar swyddi o safon sy'n talu'n dda, sgiliau, seilwaith a chysylltedd.

Mae ein hymrwymiad i raglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau, gan helpu mwy o blant difreintiedig i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, ond credaf y gallwn wneud rhagor i greu cymunedau cryfach sy'n helpu i atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a diogelu plant rhag eu heffaith. Dyma pam, yn fy natganiad ar gymunedau cryf, y gwahoddais sefydliadau i ymuno â ni i ddatblygu Parthau Plant i Gymru: asiantaethau sy'n cydweithredu i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae fy ngweledigaeth ar gyfer cymunedau sydd wedi'u grymuso a'u hysgogi yn adeiladu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol i ddiwygio llywodraeth leol, gan sicrhau mwy o gyfranogiad yn y gymdeithas sifil ac mewn democratiaeth. Mae gan awdurdodau lleol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rôl allweddol i'w chwarae a byddaf yn ymgysylltu â nhw, yn eu herio ac yn eu cynorthwyo i sicrhau eu bod yn gweithio tuag at ddiwallu anghenion a bodloni dyheadau pob un o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae trafodaethau wedi'u cynnal â nifer o awdurdodau lleol gyda chymorth eu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, i ystyried sut y gallai mwy o hyblygrwydd ariannol eu galluogi i integreiddio'r ddarpariaeth o wasanaethau ymhellach er mwyn diwallu anghenion cymunedau'n well.

Yn sgil y ffocws newydd hwn, ymysg pethau eraill rwyf wedi gofyn ai Cymunedau yn Gyntaf yw'r ffordd orau o hyd o drechu tlodi a chyflawni ar gyfer cymunedau. O ganlyniad, ym mis Hydref 2016 nodais fy mod yn ystyried dirwyn y rhaglen i ben yn raddol. Yn y cyd-destun hwn, euthum ati i edrych o'r newydd ar sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi cymunedau cryf.

Roedd fy natganiad yn arwydd o ddechrau rhaglen eang o ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol ynglŷn â'n dull o weithredu yn y dyfodol, gan gynnwys y cynnig i ddirwyn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben yn raddol.

Y broses ymgysylltu hyd yma

Ers mis Hydref, mae ein rhaglen ymgysylltu wedi cynnwys nifer o gyfleoedd i bob un o'n partneriaid sy'n ymwneud â chyflawni (Cyrff Cyflawni Arweiniol Cymunedau yn Gyntaf, timau cyflawni Clystyrau, a sefydliadau'r Trydydd Sector). Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd â swyddogion a digwyddiadau y mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) wedi'u trefnu ar ein rhan. Rydym wedi mynd ati i annog unrhyw sefydliad sydd â buddiant i gymryd rhan yn y rhaglen ymgysylltu ac mae swyddogion wedi mynd i ystod eang o fforymau a chyfarfodydd.

Yn ychwanegol at ein harolwg ar-lein 'Trafod Cymunedau', a lansiwyd ar 24 Hydref 2016 ac a gafodd dros 2000 o ymatebion, cynhaliwyd cyfarfodydd a digwyddiadau gyda'r cyhoedd, a drefnwyd ar ein rhan gan CGGC ac Ymchwil ARAD. Rydym hefyd wedi manteisio ar wybodaeth arbenigol CGGC i sicrhau bod y gwaith ymgysylltu wedi cynnwys trawstoriad eang o unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn wedi cynnwys digwyddiadau a drefnwyd drwy sefydliadau'r Trydydd Sector i sicrhau ein bod yn cynnwys safbwyntiau grwpiau penodol. Mae mwy na 50 o unigolion neu sefydliadau wedi ysgrifennu ataf i gyflwyno'u safbwyntiau ynghylch Cymunedau yn Gyntaf ers imi wneud fy natganiad. Rydym wedi sicrhau bod eu hymatebion yn cael eu cynnwys gyda'r adborth a gafwyd fel rhan o'r rhaglen ymgysylltu.

Rydym wedi annog pob awdurdod lleol a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfrannu eu barn am ddyfodol Cymunedau yn Gyntaf a'r dull newydd arfaethedig o

ymdrin â chymunedau cryf. Mae cyfarfodydd a thrafodaethau wedi'u cynnal ledled Cymru.

Yn lleol, mae Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio gydag ystod eang iawn o bartneriaid cyflawni ac rydym yn awyddus i ddeall effaith leol y broses bosibl o ddirwyn rhaglen i ben yn raddol. Mae pob Corff Cyflawni Arweiniol wedi cwblhau asesiadau manwl o'r effeithiau yn eu hardaloedd hwy.

Y goblygiadau i Raglenni eraill Llywodraeth Cymru

Mae Esgyn a Cymunedau am Waith yn gweithredu ar sail yr un ffiniau daearyddol â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar hyn o bryd, ac yn aml mae'r rhaglenni hyn yn rhannu'r un rheolwyr a seilwaith. Rwyf wedi ei gwneud yn glir fy mod wedi ymrwymo i ddyfodol Cymunedau am Waith ac Esgyn, yn annibynnol ar unrhyw benderfyniad ynghylch Cymunedau yn Gyntaf. Yn ddiweddar, cyhoeddais y byddai rhaglen Cymunedau am Waith yn cael ei hymestyn hyd 2020 ac rwy'n ystyried a yw'n briodol ymestyn rhaglen Esgyn yn yr un modd. Byddaf yn ystyried pa drefniadau eraill sydd eu hangen i gefnogi Cymunedau am Waith ac Esgyn os bydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei dirwyn i ben yn raddol. Rwy'n hyderus y bydd y rhaglenni hyn yn parhau i fod yn effeithiol; mae cysylltiadau cryf rhwng Cymunedau am Waith ac Esgyn a gwasanaethau ehangach, gan gynnwys rhaglenni ehangach awdurdodau lleol ym maes cymorth cyflogaeth, ac mae cyfleoedd i integreiddio a chydgysylltu â gwasanaethau prif ffrwd, fel y gwasanaeth iechyd, i raddau mwy.

Drwy ein proses ymgysylltu, rydym wedi ystyried graddau'r gyd-ddibyniaeth rhwng Cymunedau am Waith ac Esgyn, a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n deg dweud bod y cyd-ddibyniaethau'n amrywio'n fawr fesul clwstwr. Ym mwyafrif yr ardaloedd cyflawni, mae'r Rhaglenni wedi mynd ati'n effeithiol i ddefnyddio'r llwyfan y mae Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn ei gynnig. Mae dibyniaeth y Rhaglenni ar y Clystyrau o ran hyrwyddo, atgyfeirio ac ymgysylltu wedi'i hadlewyrchu mewn ardaloedd cyflawni i wahanol raddau, a lefel yr adnoddau sydd ar gael yn yr ardal yw'r dylanwad pennaf yn hyn o beth.

Ceir cysylltiadau clos â rhaglenni trechu tlodi eraill fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, a Cefnogi Pobl. Mae rhai rhaglenni eraill sy'n gweithredu'n annibynnol ond sy'n defnyddio ôl-troed Cymunedau yn Gyntaf i ganolbwyntio'u gweithgareddau, er enghraifft Cyfuno, sydd, yn sgil adroddiad y Farwnes Andrews sy'n dwyn y teitl "Diwylliant a Thlodi", yn canolbwyntio ar sicrhau bod mwy o breswylwyr cymunedau difreintiedig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ym maes treftadaeth a diwylliant. Mae'n werth nodi, os bydd y rhaglen Cyfuno yn cael ei hymestyn y tu hwnt i 31 Mawrth 2017, fod swyddogion yn ystyried dulliau eraill o gyflawni nad yw terfynau Cymunedau yn Gyntaf yn cyfyngu arnynt.

Mae Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cefnogi Pobl i gyd yn rhaglenni ar wahân, ond yn aml yr un cyfranogwyr a chanlyniadau a dargedir. Oherwydd hynny, bu swyddogion yn gweithio ar sicrhau bod y rhaglenni wedi'u cysoni â'i gilydd i raddau llawer mwy. Mae'r graddau y mae'r rhaglenni wedi'u cysoni

â'i gilydd mewn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol, a'u cyd-ddibyniaeth, yn amrywio'n fawr. Mewn nifer o ardaloedd awdurdodau lleol, er enghraifft, un cynllun cyflawni sydd. Mewn ardaloedd eraill, nid yw'r rhaglenni wedi'u cysoni â'i gilydd fawr ddim o hyd, neu mae'r cysoni'n gyfyngedig i lwybrau atgyfeirio rhwng rhaglenni, cydleoli, a chydweithredu ar weithgareddau penodol.

Nid yw Cymunedau yn Gyntaf yn darparu cyllid cyfalaf ac felly nid yw'n darparu cyllid ar gyfer adeiladau cymunedol yn uniongyrchol. Unwaith eto, mae rhan o'r broses ymgysylltu wedi canolbwyntio ar yr effaith ar adeiladau cymunedol. Drwy'r gwaith hwn, rydym yn cydnabod bod hyfywedd nifer o adeiladau cymunedol yn rhannol ddibynnol ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar hyn o bryd, ac mewn rhai achosion mae'n ddibynnol iawn arni. Yn aml, mae'r adeiladau hyn yn bwysig i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Os penderfynir dirwyn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben, byddai dull o weithredu fesul camau yn rhoi amser i bartneriaid lleol ddod o hyd i ffynonellau cymorth eraill fel rhan o asesiad ehangach o'r dull gorau o ddefnyddio asedau'r sector cyhoeddus a'r cyfleoedd ar gyfer cydleoli gwasanaethau.

Effeithiau dileu'r rhaglen yn raddol

Bu'r nod o ddeall effaith bosibl dirwyn rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben yn rhan ganolog o'r broses ymgysylltu. Fel yr amlinellir uchod, mae hyn yn cynnwys rhaglenni eraill ac adeiladau ac mae wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau Cymunedau yn Gyntaf a'i staff.

Fel y nodais eisoes, yn genedlaethol rydym wedi annog unrhyw sefydliad sydd â buddiant i gymryd rhan yn y rhaglen ymgysylltu er mwyn inni allu deall yn well yr effaith y bydd unrhyw newidiadau posibl i raglen Cymunedau yn Gyntaf neu ddod â'r rhaglen i ben yn ei chael arnynt hwy.

Y camau nesaf

Bu'r broses ymgysylltu'n mynd rhagddi dros fwy na 12 wythnos gan ddarparu gwybodaeth a safbwyntiau defnyddiol iawn inni eu dadansoddi. Wrth i ddechrau'r flwyddyn ariannol agosáu, mae'n bwysig bod rhanddeiliaid, yn arbennig y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau Cymunedau yn Gyntaf a phartneriaid cyflawni, yn cael gwybod am ddyfodol y rhaglen cyn gynted ag y bo modd.

Daeth cam cyntaf y rhaglen ymgysylltu i ben ar 15 Ionawr 2016. Er bod y cam hwn yng nghyd-destun y dull newydd ehangach o weithredu yng nghyswllt cymunedau cryf, roedd yn canolbwyntio ar ddyfodol Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r ail gam yn parhau i ganolbwyntio ar ddull Llywodraeth Cymru o greu cymunedau cryf yn y dyfodol. Hoffem barhau i ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru, cyrff cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat ynglŷn â'r ffordd fwyaf effeithiol o rymuso a chynorthwyo cymunedau i fod yn gryf ac yn gydnerth.

Adolygiad o ymatebion y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar y pryd i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad ar gyfer y Bedwaredd Elfen o'i Ymchwiliad i Dlodi - (Dulliau o drechu tlodi yn y gymuned).

Wrth gyflwyno ei hymatebion, nododd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi fod trechu tlodi yn flaenoriaeth sylfaenol i Lywodraeth Cymru, wrth i anghenion aelwydydd sydd ag incwm isel gael eu hadlewyrchu mewn polisïau a rhaglenni ar draws portffolios. Mynnodd gred Llywodraeth Cymru mai'r dull gorau o drechu tlodi oedd drwy gymysgedd o raglenni ar gyfer mannau penodol a rhaglenni nad ydynt yn ymwneud â mannau penodol. Mae'r dull hwn, a gymeradwywyd gan y Grŵp Cynghori Allanol ar Drechu Tlodi, ar y pryd, ac a adlewyrchir yn yr ystod o raglenni y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu, yn ein galluogi i gyrraedd mwy o bobl y mae angen cymorth arnynt, mae'n rhoi'r cyfle gorau inni wella canlyniadau iddynt, ac mae'n helpu i gynhyrchu'r gwerth mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i gydnabod bod angen cymysgedd o raglenni: y rhai sy'n ymwneud â mannau penodol a'r rhai sydd ar gael ledled Cymru. Mae gan Cymunedau yn Gyntaf; Esgyn; Cymunedau am Waith; a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth ganolbwynt daearyddol, sy'n eu galluogi i dargedu rhai ardaloedd sydd â lefelau uchel o anweithgarwch economaidd a diweithdra, ond nid y cyfan ohonynt. Mae canolbwynt daearyddol hefyd i raglenni cyfalaf, fel Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, sy'n ceisio adfywio cymunedau. Ar y llaw arall, mae Teuluoedd yn Gyntaf, Cefnogi Pobl, a'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn canolbwyntio ar boblogaethau penodol.

Rydym wedi gwneud ymrwymiad mawr i raglenni Esgyn a Cymunedau am Waith, a fydd yn parhau yn unol â'r bwriad. Mae Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn parhau i gynorthwyo plant difreintiedig i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd; rydym wedi diogelu cyllideb Cefnogi Pobl ar gyfer 2017 ac rydym wedi ymestyn y Grant Amddifadedd Disgyblion.

Yn ei hymateb, aeth y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ei blaen i ddisgrifio llwyddiannau rhaglenni allweddol, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf. Yn fy natganiad, roeddwn innau'n awyddus i dalu teyrnged i weithlu Cymunedau yn Gyntaf a chydnabod y cymorth y mae'r rhaglen wedi'i ddarparu i unigolion yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Fodd bynnag, roeddwn hefyd yn cydnabod bod yr oes wedi newid ers i'r rhaglen gychwyn bymtheng mlynedd yn ôl, a bod ein cymunedau'n wynebu heriau newydd erbyn hyn. O ganlyniad, gofynnais ai Cymunedau yn Gyntaf oedd y ffordd orau o hyd o fynd at wraidd tlodi a chyflawni ar gyfer cymunedau, a nodais fy mod yn ystyried dirwyn y rhaglen i ben yn raddol, yn amodol ar broses ymgysylltu'n eang cyn gwneud penderfyniad terfynol.

Disgrifiodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ddull Llywodraeth Cymru o drechu tlodi, gan gydnabod mai cyflogaeth oedd y llwybr gorau allan o dlodi a phwysigrwydd enfawr buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar. Mae'r themâu hyn yn rhan ganolog o'm gweledigaeth ar gyfer ein dull newydd o weithredu yng nghyswllt

cymunedau cryf, fel y nodwyd yn fy natganiad ar 11 Hydref, ac fel y dangosir yn ein hymrwymiad parhaus i raglenni Cymunedau am Waith; Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth; Esgyn; Teuluoedd yn Gyntaf; a Dechrau'n Deg.